Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 27 Chwefror 2013

10.30 – 2.30

Ystafell y Cyngor, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Yr Athro R Merfyn Jones (Cadeirydd) Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch (o 11.30) Jacqui Hare, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol Yr Athro Aled Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academaidd / Deon y Coleg Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol Rhinedd Williams, Swyddog Datblygu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Hefyd yn Bresennol:	Dr Alison Allan, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW) Rachel Cable, Addysg Uwch Cymru (AUC/HEW) Celia Hunt, Pennaeth Sgiliau, Addysg a Chyllido, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW) Kimberley Meringolo, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Ymddiheuriadau:	Andrew Green, Cyfarwyddwr Annibynnol Adam Jones, Swyddog Iaith Gymraeg, UCMC Cymru Stephanie Lloyd, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr Dr Gwennan Schiavone, Ysgrifennydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Yn absennol:	Yr Athro Medwin Hughes, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Sylwadau agoriadol ac ymddiheuriadau	1.1 Estynnwyd gair o groeso gan y Cadeirydd i'r cyfarfod. Diolchodd i'r cyfieithwyr am eu gwasanaeth ac i Rhinedd Williams am weinyddu'r cyfarfod, yn absenoldeb Ysgrifennydd y Coleg, Dr Gwennan Schiavone. 1.2 Estynnwyd croeso i Andrew Green fel Cyfarwyddwr Annibynnol newydd, er nad oedd yn medru bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn. 1.3 Nodwyd bod Gareth Pierce bellach wedi ymddiswyddo fel Cyfarwyddwr a diolchwyd iddo am ei gyfraniad gwerthfawr ar hyd y cyfnod. Cadarnhawyd y byddai'r Coleg yn ei wahodd i barhau fel aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor Archwilio. Gan mai ef oedd Is-Gadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr, byddai angen penodi yn ei le ar gyfer y cyfarfod nesaf. 1.4 Nodwyd mai hwn byddai cyfarfod olaf Dr Alison Allan, a diolchwyd iddi am ei chyfraniad. Ategodd y Prif Weithredwr at y diolchiadau a phwysleisio ei bod wedi bod yn bleser cyd-weithio â hi. Croesawyd Kimberely Meringolo, fel olynydd i Dr Allan. 1.5 Derbyniwyd nifer ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion. 1.6 Nodwyd consyrn cyffredinol am absenoldeb yr Athro Medwin Hughes, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch, a nodwyd y byddai'r Cadeirydd yn cysylltu ag ef i drafod ei absenoldeb o'r cyfarfodydd.	Penodi Is-Gadeirydd y Bwrdd Yr Athro Merfyn Jones i drafod â'r Athro Medwin Hughes	Mehefin 2013 Cyn gynted â phosibl
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau heblaw'r rhai sydd eisoes wedi eu cofnodi. Nodwyd gan y Cadeirydd y byddai'r Gofrestr Buddiannau	Swyddogion y Coleg i adolygu'r Gofrestr	Cyn diwedd Mawrth 2013

	yn cael ei hadolygu yn dilyn newidiadau yn aelodaeth y Bwrdd.	Buddiannau	
3. Derbyn ac ystyried cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2012	3.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r Cyfarfod.		
4. Materion yn Codi	**Eitem 4.4** <u>Targedau</u> Cafwyd crynodeb gan Gofrestrydd y Coleg o'r sefyllfa ddiweddaraf ar niferoedd y myfyrwyr sydd yn astudio o leiaf ran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2012/13. Cafwyd trafodaeth gyffredinol am y targed presennol gan nodi fod y Coleg wedi gosod targedau i'r sefydliadau unigol er mwyn cyrraedd y targed cenedlaethol. Ategwyd nad oedd cynlluniau ffioedd y sefydliadau, sydd wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor Cyllido, yn cynnig model ar gyfer cwrdd â'r targed sefydliadol. Atgoffodd y swyddogion aelodau'r Bwrdd eu bod wedi tynnu eu sylw at hyn yn Hydref 2011.		
	Eitem 7.8 <u>Statws y Coleg o fewn siarter sefydliadau unigol</u> Nodwyd fod trafodaeth gychwynnol wedi bod gydag Addysg Uwch Cymru ynghylch statws y Coleg o fewn siarter sefydliadau unigol. Cytunwyd i ofyn i Wyn Thomas, Ieuan Wyn a'r Prif Weithredwr i gyfarfod er mwyn trafod y mater ac awgrymu geiriad posibl.	WT, IW ac IM i gyfarfod	Mawrth 2013
	Eitem 7.9 <u>Cynrychiolaeth y Coleg ar gyrff eraill</u> Adroddodd y Prif Weithredwr fod y Coleg wedi derbyn gwahoddiad i ymuno â Phwyllgor Cymru'r ASA (QAA) ac y byddai'n cynrychioli'r Coleg. Adroddwyd hefyd fod y Cofrestrydd hefyd wedi derbyn		

	gwahoddiad i ymaelodi â'r Bwrdd Dysgu Digidol. Cyfeiriodd Ieuan Wyn at Ymddiriedolaeth Gwasg Prifysgol Cymru ac awgrymu ei bod yn allweddol fod y Coleg yn cael ei gynrychioli ar y corff hwn. Cytunwyd i ysgrifennu at Brifysgol Cymru mewn perthynas â hyn.	Ysgrifennu i ofyn am gael cynrychiolaeth ar Fwrdd Ymddiriedolwyr	Cyn gynted â phosibl
	Eitem 13 Pwyllgor Cydweithio Academaidd Adroddwyd fod y Pwyllgor, wedi ymgynghori pellach gydag aelodau'r Bwrdd, wedi cyfarfod am y tro cyntaf. Penodwyd Huw Morris, Cofrestrydd Prifysgol Abertawe yn Gadeirydd a David Lloyd, Prifysgol Caerdydd, yn Is-Gadeirydd. Cyflwynir adroddiad pellach i'r cyfarfod nesaf. Cadarnhawyd y byddai Dr Hefin Jones yn ymuno â'r Pwyllgor, er mwyn sicrhau cynrychiolaeth o'r Bwrdd Academaidd.	Adroddiad cynnydd yn y cyfarfod nesaf.	Mehefin 2013
	Eitem 14 Astudiaethau Cyfieithu Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad llafar ar gyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2013 er mwyn trafod creu fframwaith cenedlaethol ar gyfer darpariaeth ym maes Astudiaethau Cyfieithu. Cadarnhaodd bod cefnogaeth gref gan y sefydliadau i fod yn rhan o'r broses i lunio cynllun busnes. Pwysleisiwyd bod hyn yn enghraifft o'r Coleg yn arwain gwaith cynllunio cenedlaethol er mwyn adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol yn hytrach na'i chydlynu yn unig. Nodwyd cyfraniad allweddol Heini Gruffudd fel ymgynghorydd arbenigol mewn perthynas â'r gwaith hwn.		
	Eitem 15.4 Ysgoloriaethau Ymchwil Cyflwynodd Dr Hefin Jones, Deon y Coleg, adroddiad llafar ar benderfyniadau unfrydol y Bwrdd Academaidd i gadarnhau		

	newidiadau i'r broses o ymgeisio am Ysgoloriaethau Ymchwil. Esboniwyd y byddai'r drefn newydd yn broses un cam gyda'r sefydliadau yn cyflwyno ceisiadau yn uniongyrchol i'r Coleg, gan enwebu, fel arfer, myfyriwr ymchwil cymwys ar gyfer yr ysgoloriaeth arfaethedig. Byddai'r dyddiad cau eleni ar 1 Mai. Cymeradwywyd y trefniadau ar gyfer dyfarnu'r ysgoloriaethau.		
	Eitem 16.2 <u>Aelodaeth y Grŵp Polisi Addysg a Dilyniant</u> Cafwyd esboniad gan Ieuan Wyn ar y rhesymau dros ychwanegu at aelodaeth y Grŵp a chymeradwywyd hyn gan y Bwrdd.		
5. Gohebiaeth	5.1 Adroddodd y Prif Weithredwr ar lythyr gan Meurig Roberts, Llywodraeth Cymru, yn gofyn i'r Cyngor Cyllido a/neu'r Coleg baratoi adroddiad mewn perthynas â maes Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (HCA) cyfrwng Cymraeg. Nodwyd y bwriad i gyflwyno drafft o'r adroddiad i'r cyfarfod nesaf. 5.2.1 Cyfeiriodd y Cadeirydd at lythyr a dderbyniodd fel Cadeirydd y Coleg oddi wrth Dr Enlli Thomas, Cadeirydd Cangen Bangor, mewn perthynas â dyfarniadau'r Cynllun Staffio Academaidd. 5.2.2 Datganodd Wyn Thomas ddiddordeb yn y mater a gadael yr ystafell. 5.2.3 Cafwyd trafodaeth lawn ar gynnwys y llythyr a chytunodd yr aelodau, yn unfrydol, i ymateb drwy ddatgan eu cefnogaeth i benderfyniadau'r panel dyfarnu, er yn deall fod y Brifysgol yn siomedig gyda'r canlyniad yn achos y swydd dan sylw. 5.2.4 Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Bwrdd ynghylch y cyllid y mae'r Coleg yn ei ddarparu drwy grantiau i Brifysgol Bangor, o gymharu â sefydliadau eraill, nodwyd fod y wybodaeth hon yn yr Adroddiad Blynyddol a gyhoeddwyd y diwrnod cynt.	Adroddiad drafft i'w gyflwyno i'r Bwrdd Y Cadeirydd i ymateb trwy lythyr	Mehefin 2013 Cyn gynted â phosibl

	5.2.5 Yn dilyn y drafodaeth, ail-ymunodd Wyn Thomas â'r cyfarfod. 5.3 Nodwyd, er gwybodaeth, gynnwys llythyr a dderbyniwyd oddi wrth yr Athro Aled Jones, Dirprwy Is-Ganghellor Hŷn Prifysgol Aberystwyth, mewn perthynas â'r Cynllun Staffio Academaidd.		
6. Llywodraethu	6.1.1 Cadarnhawyd penderfyniadau cyfarfod y Llys a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2013, sef: 6.1.2 Derbyn y Cyfrifon Archwiliedig ar gyfer 2011/12. 6.1.3 Derbyn Adroddiad Blynyddol y Coleg. 6.1.4 Penodi Andrew Green, yr Athro Medwin Hughes, Dr Hefin Jones a'r Athro Hywel Thomas yn aelodau o'r Bwrdd am y cyfnod 2013 hyd 2016. 6.1.5 Cadarnhau penodiad Stephanie Lloyd yn aelod o'r Bwrdd hyd at 2015. 6.1.6 Penodi Price Waterhouse Coopers yn Archwilwyr Allanol ar gyfer 2012/13. 6.1.7 Penodi KTS Owens Thomas yn Archwilwyr Mewnol hyd at 31 Gorffennaf 2014.		
7. Materion Archwilio	7.1 Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2012. 7.2 Gan nad oedd Gareth Pierce yn aelod o'r Bwrdd bellach cytunwyd i benodi'r Athro Iwan Davies yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio. 7.3 Cafwyd adroddiad llafar gan Geraint James, Cadeirydd y Pwyllgor. Adroddwyd fod Adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar y flwyddyn 2011/12, i'w gyflwyno i HEFCW, wedi derbyn sêl		

	bendith y cyfarfod y diwrnod blaenorol. Nid oedd yr archwiliad wedi tynnu sylw at unrhyw wendidau a chafwyd bod y Coleg yn gweithredu'r systemau yn ddigonol ac yn foddhaol. Nid oedd unrhyw argymhellion sylweddol i'w gweithredu. 7.4 Nodwyd fod y swyddogion wedi gweithredu yn dilyn adroddiad yr archwilwyr mewnol ar waith y swyddogion cangen ac y byddai'r argymhellion yn cael eu hadlewyrchu mewn newidiadau yn amodau'r cytundeb cyllido ar gyfer 2013/14 mewn perthynas â grantiau i gynnal cyflogaeth y swyddogion cangen. 7.5 Adroddwyd bod trafodaeth lawn a chynhwysfawr wedi digwydd ar faes Cyfathrebu a bod y Pwyllgor Archwilio wedi cyfarwyddo'r swyddogion i ddilyn camau penodol mewn perthynas â'r maes hwn. 7.6 Cofrestr Risgiau - Adroddwyd fod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r Gofrestr yn ei ffurf newydd ac y byddai'r ddogfen yn cael ei chylchredeg i aelodau'r Bwrdd.	Cylchredeg y Gofrestr i'r Bwrdd	Erbyn Mehefin 2013
8. Trefniadau Cyllido Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg	8.1 Adroddodd Celia Hunt ar y trefniadau cyllido newydd yn dilyn cyflwyno trefn ffioedd gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad byddai'r drefn premiwm cyfrwng Cymraeg presennol ar gyfer myfyrwyr llawn amser yn dod i ben a byddai disgwyl i'r sefydliadau wneud yn iawn am hyn drwy eu cynlluniau ffioedd. 8.2 Mynegodd rhai aelodau o'r Bwrdd nad oeddent yn ymwybodol o'r datblygiad hwn a chytunwyd fod angen cadw golwg manwl ar y sefyllfa, yn enwedig o ran effaith ar waith y Coleg.	Cadw golwg ar y sefyllfa	Parhaol
9. Diweddariad ar Gynllun Gweithredu'r Coleg 2012/13	9.1 Yn dilyn cyflwyno diweddariad ar Gynllun Gweithredu'r Coleg nid oedd unrhyw gwestiynau yn codi.		

10. Materion Academaidd	10.1 Cafwyd adroddiad llafar cynhwysfawr gan y Deon, Dr Hefin Jones, ar gyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2013. 10.2 Cyfeiriwyd at y gwaith o ddatblygu cynlluniau pwnc ar gyfer nifer o feysydd, a bod y cynlluniau Daearyddiaeth/Amgylchedd a'r Gyfraith wedi eu cytuno mewn egwyddor. Rhagwelir y bydd nifer o gynlluniau pynciol eraill yn cael eu cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf. Adroddwyd bod aelodaeth y paneli pwnc wedi ei drafod a nododd y swyddogion eu bod yn ymwybodol fod hwn yn fater dyrys sydd angen ystyriaeth bellach erbyn y flwyddyn academaidd nesaf. 10.3 Mewn perthynas â dyfarniadau'r Cynllun Staffio Academaidd i gychwyn yn 2013/14 adroddodd y Cofrestrydd fod y manylion wedi eu cytuno mewn egwyddor ymhob achos, heblaw dau, a bod cytundebau cyllido unigol yn cael eu paratoi yn unol â'r drefn arferol. 10.4 Trafodwyd sefyllfa ceisiadau Prifysgol Morgannwg am swyddi ym maes Drama a Cherddoriaeth a'r amod a osodwyd gan y panel dyfarnu yn disgwyl i'r Brifysgol fuddsoddi mewn dwy swydd o fewn y Diwydiannau Creadigol o'u hadnoddau eu hunain, yn wyneb y ffaith fod y Coleg yn buddsoddi'n helaeth iawn ym Morgannwg yn y meysydd hyn. Cyfarwyddwyd y swyddogion i gynnal trafodaethau gyda'r Brifysgol gan ddilyn yr egwyddor yma a phwysleisiwyd y dylai unrhyw fuddsoddi pellach gan y Coleg yn y meysydd hyn ym Morgannwg eleni fod ar sail buddsoddiad cyfartal gan y Brifysgol.	Ystyried aelodaeth y paneli pwnc Swyddogion i gynnal trafodaeth	Cyfarfod Hydref 2013 Ar unwaith
11. Derbyn papur diwygio ar (i) y Cynllun Staffio Academaidd (ii) Y	11.1 Cafwyd trafodaethau ar gyflwyno argymhellion ar gyfer adolygu'r trefniadau dyfarnu grantiau drwy'r Cynllun Staffio Academaidd a'r Gronfa Datblygiadau Strategol. (i) <u>Cynllun Staffio Academaidd</u>. Adroddodd y Prif Weithredwr	Papur i gyfarfod nesaf y	19 Mehefin 2013

Gronfa Datblygiadau Strategol	fod y swyddogion yn argymell y dylid o leiaf ystyried adolygu'r trefniadau dyfarnu ar gyfer swyddi i gychwyn yn 2014/15 a 2015/16 gan y rhagwelir y bydd cystadleuaeth frwd am y swyddi yn y cyd-destun cyllidol presennol. Cytunwyd i ymgynghori'n ffurfiol gyda'r sector yn ystod Tymor yr Haf (ii) <u>Y Gronfa Datblygiadau Strategol</u>. Cafwyd trafodaeth ar y trefniadau ar gyfer dyfarnu grantiau o'r Gronfa hon a chytunwyd y byddai'r Coleg yn ymgynghori'n anffurfiol gyda'r prifysgolion cyn cyhoeddi'r Cylchlythyr, er mwyn eu rhybuddio mai uchafswm o £200,000 fydd ar gael eleni.	Bwrdd Cynnal ymgynghoriad anffurfiol	 Cyn cyhoeddi'r cylchlythyr
12. Adolygu Cynlluniau Ysgoloriaethau'r Coleg	12.1 Adroddodd y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd ar yr ymatebion a ddaeth i law fel ymateb i'r cynigion ar gyfer newid y trefniadau dyfarnu ar gyfer y Prif Ysgoloriaethau. Yn wyneb y gwahaniaethau barn sylfaenol rhwng y prifysgolion argymhellwyd i ohirio unrhyw newidiadau am flwyddyn er mwyn cynnal trafodaethau pellach. Yn y tymor byr byddai'r Coleg yn cyflwyno newidiadau i'r ffurflen gais a'r broses o hysbysu ymgeiswyr llwyddiannus er mwyn lliniaru ar y problemau ymarferol a oedd wedi dod i sylw'r Coleg yn sgil sylwadau myfyrwyr a rhieni. 12.2 Pwysleisiodd swyddogion y Cyngor Cyllido fod y gyllideb hon yn cael ei ddarparu er mwyn cynyddu'r niferoedd sydd yn astudio cyfran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Yr oedd ymatebion rhai o'r prifysgolion yn rhedeg yn groes i'r egwyddor hon a chynghorwyd y byddai hyn yn annerbyniol i Lywodraeth Cymru. 12.3 Cytunwyd i gynnal seminar yn ystod Tymor yr Haf er mwyn gwyntyllu'r holl faterion yn llawn a chytuno ar drefniadau newydd erbyn 2015.	 Trefnu seminar	 4 Mehefin 2013
13. I dderbyn	13.1 Derbyniwyd adroddiadau ar y canlynol:		

adroddiad ar (i) Ymgyrch Recriwtio a (ii) Prosbectws y Coleg	(i) Ymgyrch Recriwtio: Cafwyd diweddariad gan y Cofrestrydd ar y cynlluniau. (ii) Prosbectws y Coleg: Estynnodd y Cofrestrydd ei ddiolch i'r prifysgolion am eu cydweithrediad wrth ddarparu deunydd pynciol i'r prosbectws. Mynegodd y bwriad i gyhoeddi'r prosbectws ym Mai 2013. Eglurodd bod tair adran i'r prosbectws: Adran 1 - Gwybodaeth gyffredinol am y Coleg Adran 2 - Pynciol Adran 3 - Cefndir y Canghennau Cadarnhaodd y byddai fersiwn Cymraeg a fersiwn dwyieithog o'r prosbectws yn cael eu cyhoeddi, yn ogystal â fersiwn electroneg ac (o bosibl) elfennau rhyngweithiol maes o law.	Prosbectws y Coleg 2014	Mai 2013
14. Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng y Coleg a Cholegau Cymru	14.1 Adroddodd y Prif Weithredwr bod trafodaethau yn digwydd gyda Cholegau Cymru ar Femorandwm Cyd-weithio a fyddai'n cael ei lansio ym mis Mai. Cytunwyd i gylchredeg y ddogfen derfynol i'w chymeradwyo gan aelodau'r Bwrdd.	Cylchredeg y Memorandwm i'r Bwrdd	Cyn Mai 2013
15. Unrhyw Fater Arall	15.1 Cyhoeddodd y Prif Weithredwr ar y canlynol: • bod trafodaethau yn cael eu cynnal gydag unigolyn sydd yn bwriadu cyflwyno rhodd er mwyn sefydlu gwobr i fyfyrwyr sydd yn astudio'r Gyfraith. • bod Cynhadledd Ryngwladol i'w chynnal gan y Coleg ar Orffennaf 1-3, 2014 yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd. • bod y Cofrestrydd wedi ei benodi i Bwyllgor NPLD. 15.2 Yn sgil awgrym gan aelod o'r Bwrdd cytunwyd i drafod enwau Cymrodyr i'w hanrydeddu yn 2014 yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.	Trafod Cymrodyr posibl yn y Bwrdd nesaf	Mehefin 2013

	15.3 Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd wedi trefnu'r Cynulliad Blynyddol a'r cyfarfodydd yn ystod y deuddydd, a mynegodd mai gwych iawn oedd gweld cynifer wedi ymgynnull. Diolchodd i Gomisiynydd y Gymraeg, Meri Huws, am ei haraith ac i staff y Coleg yn gyffredinol am eu gwaith diflino i sicrhau llwyddiant y digwyddiadau. 15.4 Diolchodd hefyd i'r Llyfrgell Genedlaethol am letya cyfarfod y Bwrdd.		
16. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf	16.1 Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 19 Mehefin 2013 ym Mhrifysgol Caerdydd.		